**Cynlluniau Cyfweliad Gwarantedig**

Mae Coleg Gwent yn ceisio cynyddu amrywiaeth ymhlith ein gweithlu ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n recriwtio'r bobl orau ar sail wrthrychol eu sgiliau, eu gallu a'u profiad. Rydym yn gwerthfawrogi'r buddion sydd ynghlwm ag amrywiaeth yn y gweithle ac rydym yn deall bod amrywiaeth o ran safbwynt a phrofiad yn gallu annog creadigrwydd parchus, meithrin arloesi a chreu cyfleoedd i bawb.

Dyfarnwyd statws Hyderus o ran Anabledd i ni ac rydym wedi ymrwymo i annog cyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Rydym hefyd yn ymestyn yr ymrwymiad hwn i gyflogi a datblygu gyrfa pobl o gymunedau duon, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.